



Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon

Brynglas Drive
Casnewydd
NP20 5QS

Tel/Ffôn: 01633 850804

E-mail/E-Bost: ysgol.gymraegbroteyrnon@ysgolioncasnewydd.cymru

ysgol.gymraegbroteyrnon@newportschools.wales

Gwefan/Website: broteyrnon.cymru

Pennaeth: Mrs Lona Jones-Campbell

*“Ysgol i Esgor Gobeithion”
“A Place to Nurture our Aspirations”*

18/12/2023

Annwyl Rieni/Warchodwyr,

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i chi, cymuned Bro Teyrnnon am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth yn ystod y tymor. Hoffwn hefyd ddiolch i fy staff am eu cefnogaeth, am eu partneriaeth i wireddu nifer o brosiectau ac am fod yna gyda mi ar ein taith er lles ein plant a'u teuluoedd. Mae'r rhestr yn ddi-ddiwedd.

Yn ystod ymweliadau diweddar i'r theatr roedd y perfformwyr yn clodfori ymatebion y plant a'u parodrwydd i ryngweithio yn ystod y perfformiad. Hefyd braf yw rannu bod swyddog rygbi'r Dreigiau wedi clodfori cwrteisi a sgiliau plant Blwyddyn 6 yn ystod y sesiynau wrth iddynt ddangos aeddfedrwydd yn cefnogi a chydweithio gyda'u cyfoedion.

Mwynhewch hwyl yr Ŵyl gyda'ch holl deulu a ffrindiau!

Dear Parents/Guardians,

I would like to take this opportunity to thank you, Bro Teyrnnon community for your cooperation and support during the term. I would also like to thank my staff for their support, for their partnership to realise a number of projects and for being there with me on our journey for the benefit of our children and their families. The list is endless.

During visits to the theatre the performers praised the children's reactions and their willingness to interact during the performance. I'm also very proud to share that the Dragons' rugby officer praised the courtesy and skills of the Year 6 children during the sessions as they showed maturity in supporting and working together with their peers.

Have a wonderful Christmas with all your family and friends!

Mrs Lona Jones-Campbell
Pennaeth Gweithredol/Executive Headteacher

Bwletin y Pennaeth/Head Teacher's Bulletin



Caredigrwydd Cymunedol

Yn ystod yr wythnos hon yn rhan o weithgarwch Llun Lles a Llawenydd rydw i wedi gofyn am gefnogaeth y plant i greu cardiau cyfarch Nadoligaidd i'w danfon at drigolion cartrefi preswyl ar draws y ddinas ac yn ardaloedd cyfagos. Gweithred o garedigrwydd i lonni bywydau eraill.

Os oes ganddoch chi fel teulu un o'ch anwyllion mewn cartref preswyl ac am i ni ddanfôn ychydig o gardiau atynt danfonwch ebost atom. Fe allwn ni gael casgliad o gardiau yn barod ar eich cyfer i gasglu o'r ysgol ar fore Mercher (20/12/23) a bocs o mîns peis ar gyfer y staff. Lledu'r neges o garedigrwydd tu hwnt i furiau'r ysgol.

Community Kindness

During this weeks "Happiness and Wellbeing Mondays" activities I've asked for the children's support to create festive greeting cards to be delivered to residents of residential homes across the city and neighbouring areas. An act of kindness to brighten the lives of others.

If you as a family have a loved one in a residential home and want us to send them some cards please send us an email. We can have a collection of cards ready for you to collect from school on Wednesday morning (20 /12/23) and a box of mince pies for the staff. Spreading the message of kindness beyond the school walls.

Prosiect Plannu Cymunedol

Ysgrifennaf i ddiolch i'r Tîm o wirfoddolwyr a ddaeth i'r safle ar 29ain o Dachwedd i osod y Polytunnel. Fe fuodd y Tîm o 5 yn brysur o 8:30 y bore tan 5 o'r gloch yr hwyr yn gosod y polytunnel yn ei le. Mae'r adnodd yn barod ar gyfer y prosiectau ac fe fyddwn ni'n rhannu mwy o wybodaeth gyda chi yn y dyfodol am ddatblygiadau cyffrous cymunedol ar y safle. Diolch i'r 5 am eu gwaith difflino a hefyd i Cartrefi Dinas Casnewydd am ryddhau 2 o'u gweithwyr i helpu gyda'r prosiect:

- Mr Rob Martin (Tadcu)
- Mr Stephen Williams (Rhiant a Chartrefi Dinas Casnewydd)
- Mr Peter Bourne (Rhiant a Chartrefi Dinas Casnewydd)
- Mr Richard Saunders (Rhiant)
- Mr James Bell (Rhiant)

Community Planting Project

I am writing to thank the Team of volunteers who came to the site on 29th November to install the Polytunnel. The Team of 5 was busy from 8:30 in the morning until 5 o'clock in the evening putting the polytunnel in place. The resource is ready for the projects and we will share more information with you in the future about exciting community developments on the site. Thanks to the 5 for their tireless work and also to Newport City Homes for releasing 2 of their employees to help with the project :-

- Mr Rob Martin (Grandparent)
- Mr Stephen Williams (Parent & Newport City Homes)
- Mr Peter Bourne (Parent & Newport City Homes)
- Mr Richard Saunders (Parent)
- Mr James Bell (Parent)



Sioeau a Chyngherddau'r Wyl

Hoffwn longyfarch plant yr ysgol gyfan ar eu perfformiadau a diolch i'r holl staff am eu gwaith. Braff oedd gweld y gymuned gyda'i gilydd yn neuadd yr ysgol ac hefyd yn Eglwys Heol Malpas.



Christmas Shows and Concert



I would like to congratulate all the school children on their performance and to all the staff for their hard work. It was lovely to see the school community together in the school hall and in the Malpas Road Church.

Diolch hefyd i'r Heddlu Bach am eu cefnogaeth yn ystod y sioeau yn cyfeirio oedolion i'r manau cywir ac yn helpu gyda'r trefniadau.

Thanks also to the Heddlu Bach for their support during the shows directing adults to the right places and helping with the arrangements.



Cais am Gefnogaeth

Ym mis Ionawr mae angen rhywfaint o ofal a sylw tyner ar y cylch helyg yng nghefn ein safle. Yn anffodus tua 4 mlynedd yn ôl cafodd ei fandaleiddio yn ystod y penwythnos. Mae gynnon ni Mamgu sy'n arbenigo mewn datblygu a chynnal strwythurau helyg ond mae angen 3 oedolyn i'w chynorthwyo i docio ac ailblannu stêcs i gryfhau'r strwythur. Nodwch ar Parent Pay ar "Prosiect Trwsio Cylch Helyg" os rydych chi ar gael i helpu.

Plea for support

In January the willow circle at the rear of our site needs some tender care and attention. Unfortunately, about 4 years ago it was vandalised during the weekend. We have a grandparent who is an expert in developing and maintaining willow structures but needs 3 adults to assist her in pruning and replanting steaks to strengthen the structure. Please note on Parent Pay on the "Willow Circle Repair Project" if you're available to help.

Dyddiadau Pwysig i'ch Dyddiadur

10/1/24	<p>- Taith Llusernî'r Flwyddyn Newydd – Pawb i ymgynull yn y maes parcio am 4:30 ac yna fe fydd Gorymdaith Blwyddyn Newydd Llusernî o gwmpas Rhodfa Brynglas i ddathlu'r flwyddyn newydd tra'n canu cân y Flwyddyn newydd. Gall teuluoedd ddod â'u llusernau cartref i'r orymdaith.</p> <p>Yn dilyn yr orymdaith bydd cyfle i bawb gael paned o gawl poeth yn y neuadd. Gofynnwn yn garedig am gyfraniadau o gawl a bara Ffrengig ar gyfer y noson. Os ydych yn gwybod am rywun sy'n gallu noddi'r achlysur byddwn yn gwerthfawrogi hyn yn fawr. Cysylltwch â swyddfa'r ysgol gyda manylion noddwyr cawl/bara.</p>
---------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

*****Clybiau ar ôl Ysgol – Ni fydd Clwb Chwaraeon ar y 10fed o Ionawr.**

Important Dates for Your Diary

10/1/24	<p>- New Year's Lantern Parade - Everyone to gather in the car park at 4:30 and then there will be a New Year's Lantern Parade around Brynglas Drive to celebrate the new year whilst singing the new year song. Families can bring their home-made lanterns to the parade. Following the parade there will be an opportunity for everyone to have a cup of hot soup in the hall. We ask kindly for donations of tinned soup and French bread sticks for the evening. If you know of someone who can sponsor the occasion we would greatly appreciate this. Please contact the school office with details of soup / bread sponsors.</p>
---------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

*****After School Clubs – There will be no Sports Club on the 10th of January**

Ionawr Llawn Caredigrwydd

Ym mis Ionawr fe fyddwn yn **cefnogi Prosiect Di-gartref - Eglwys Malpas Road**. Mae prosiect Eden Gate yn gweithio law yn llaw gyda nifer o Eglwysi lleol i gefnogi'r digartref. Mae'r Eglwys angen y canlynol ar gyfer y prosiect ac os rydych chi'n gallu cyfrannu rhywbeth fe fydd hi'n braf gallu mynd â chasgliad i'r Eglwys yn ystod mis Ionawr.

- **Sgarffiau, boxer shorts (maint canolig neu mawr) neu chyfraniad arianol ar gyfer bwyd.**

Kind January

During January we will be **supporting the Malpas Road Church Homeless Project**. The Eden Gate project are working alongside local churches to support the homeless. The church requires the following for their project and if you can contribute anything it would be lovely to take a collection to the church during January

- **Scarves, boxer shorts (medium or large) or financial contribution for food.**

Diwrnod Mae Gen i Hawl - 7/12/23 Welsh Language Rights Day



Eleni, roedd Cyngor Dinas Casnewydd yn dathlu Diwrnod Mae Gen i Hawl 2023 drwy lansio'r prosiect hwn - Yr Wynebau o Gymreictod. Mae'n brosiect fideo sydd wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth rhwng Cyngor Dinas Casnewydd a chwmni yng Nghasnewydd, Urban Circle. Mae Urban Circle wedi gweithio gyda phobl leol i greu 10 fideo ac i ofyn iddyn nhw am eu Cymreictod a beth mae gallu siarad Cymraeg yn ei olygu iddyn nhw. Braf oedd gweld un o ddisgyblion yr ysgol ac aelod o'r teulu yn serenu yn un o'r fideos.

Cynhaliwyd y digwyddiad lansio ar y 7fed o Ragfyr ym Mhrifysgol De Cymru, Campws Casnewydd rhwng 6yh a 7yh. Thema Diwrnod Mae Gen i Hawl oedd "Defnyddia Dy Gymraeg". Yn unol â'r ymgyrch hon, mae'r prosiect yn annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob

dydd. Rhanwyd y fideos yn y digwyddiad lansio ar y 7fed o Ragfyr a thrwy sianeli cyfryngau cymdeithasol o'r 7fed i'r 11eg yn unol ag ymgyrch swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Braint oedd i mi gael bod ar y panel gyda Maccsen a'i fam.

Newport City Council is celebrating Welsh Language Rights Day 2023 by launching this project -The Many Faces of Welshness. It is a video project that has been developed in a partnership between Newport City Council and a company in Newport,



Urban Circle. Urban Circle has worked with local people to create 10 videos and to ask them about their Welshness and what being able to speak Welsh means to them. It was a joy to see one of our pupils and a member of their family members being interviewed in one of the videos.

The launch event was- held on the 7th of December at the University of South Wales, Newport Campus between 6pm and 7pm. This year, the theme of Welsh Language Rights Day is "Use Your Welsh/Defnyddia Dy Gymraeg". In line with this campaign, the project encourages Welsh speakers to use the language in their everyday lives.

The videos were shared at the launch event on the 7th of December and via social media channels from the 7th to the 11th in line with the Welsh Language Commissioner's campaign. It was an honour to be on the panel with Maccsen and his Mum.

Cais gan y Cyngor Eco - "Sbwriel yn Maes Parcio'r Ysgol"

Hoffwn achub ar y cyfle i rannu neges ar ran y pwyllgor Cyngor Eco i atgoffa pawb os ydych yn parcio yn y maes parcio peidiwch taflu sbwriel ar y llawr - defnyddiwch y biniau ar y stryd neu ewch a'ch sbwriel adref.

Eco Council Plea - "Rubbish in the School Car Parks"

I would like to take the opportunity to remind everyone that if you park in the school car park do not throw rubbish on the floor – use the bins on the street or take your rubbish home.



Ffair Nadolig

Diolch i bawb am eich cefnogaeth yn y Ffair Nadolig ac hoffwn gyhoeddi codwyd £713.40 ar y noson. Llongyfarchiadau i'r pwyllgor gweithgar! Pawb yn edrych 'mlaen at ddigwyddiadau 2024!

Christmas Fayre

Thank you to everyone for your support at the Christmas Fayre and I would like to announce that £713.40 was raised on the night. Congratulations to the active committee! Everyone looking forward to the events of 2024!



"Dathlu Doniau Disgyblion" - Dydd Gwener olaf pob mis

Ar Ddydd Gwener olaf pob mis rydym am gael cyfle i ddathlu doniau ein disgyblion felly yn ystod ein gwasanaeth fe fydd cyfle i blant yr ysgol rannu a dathlu eu cyflawniadau o fyd chwaraeon i weithgarwch cymunedol. Dewch a'ch newyddion i'r ysgol ac fe fydd modd i ni rannu ein balchder am eich gweithgarwch cymunedol, gwobrau arbennig a chyflawniadau ac fe fyddwn yn trydaru llun gyda'r teitl "Dathlu Doniau Disgyblion".

Dathlu Doniau Disgyblion - Last Friday of every Month

On the last Friday of every month we want to celebrate our pupils talents so during our assembly there will be an opportunity for the children to share and celebrate their achievements from the world of sport to community activities. Bring your news to the school and we will be able to share our pride of your community activities, special awards and achievements and tweet a picture with the title "Celebrating Pupils' Talents".

Sêr y Sgrîn



Yn ystod y flwyddyn diwethaf mae'r ysgol wedi bod yn ffodus i gymryd rhan yn amrywiaeth o raglenni felly hoffwn rannu dyddiadau pwysig pan fyddant yn cael eu darlledu.



1) Rhaglen "Awyr Iach" gyda phlant Blwyddyn 4

Bydd y gyfres newydd o Awyr Iach yn dechrau ar Cyw yn y flwyddyn newydd ar Ddydd Mawrth, Ionawr 2 am 7.45yb.

Bydd yr eitem ioga gafodd ei ffilmio gyda chriw B14 ymlaen ar : **Ionawr 9, 2024**

Bydd pob pennod yn cael ei hail-ddangos pythefnos ar ôl ei ddarlledu, a hynny ar yr Awr Fawr am 4.00yp. Hefyd bydd modd gwyllo hi ar

CywTiwb. <https://www.s4c.cymru/clic/Categories/13> Felly digon o gyfle i'w gweld

2) Rhaglen "Bendibwmbwls" gyda phlant Blwyddyn 2

Bydd y gyfres newydd Bendibwmbwls yn dechrau ar Cyw yn y flwyddyn newydd ar Ddydd Mawrth, Ionawr 2 am 7.20yb.

Mi fydd Ysgol Bro Teyrnnon ymlaen: **Dydd Mawrth, Ionawr 16, 2024**

Bydd bob pennod yn cael ei hail-ddangos pythefnos ar ôl ei ddarlledu, a hynny ar yr Awr Fawr am 4.00yp. Hefyd bydd modd gwyllo hi ar

CywTiwb. <https://www.s4c.cymru/clic/Categories/13> Felly digon o gyfle i'w gweld



3) Yn dilyn clyweliadau gyda phlant llynedd roedd criw wedi eu dewis ar gyfer rhaglen Ne-wff-ion.

Mae'r rhaglenni'n cael eu dangos yn wythnosol o ddydd Gwener 27 Hydref 2023 am 07.45am. Yn yr ail raglen, ar y 3ydd o Dachwedd roedd yr eitem ar Hen Long Casnewydd i'w gweld gyda Heti Andrews yn cyflwyno.

[BBC iPlayer - Ne-wff-ion - Ne-wff-ion: Newyffion](#) Gwylwch y rhaglen i weld mwy o wynebau cyfarwydd yn y dyfodol.

4) Plant Blwyddyn 6 2022-2023

Mi fydd y bennod o Boom! sydd yn cynnwys eitem 'Brwydr Bidders' Ysgol Bro Teyrnnon ar y teledu ar Ddydd Mawrth Chwefror y 13eg, am 17:45 a Dydd Mawrth, Mawrth 26ain, am 17:45.

Mae'r plant oedd yn cymryd rhan ar y rhaglen bellach yn Ysgol uwchradd ond rydyn ni wedi derbyn y dyddiadau darlledu nawr gan fod y gyfres yn darlledu hwyrach na'r disgwyl.



Stars of the Screen



During the last year the school has been fortunate to take part in various programs so I would like to share important dates when they will be broadcast.



1) "Awyr Iach" Programme with Year 4 children

The new series of Awyr Iach will start on Cyw in the new year on Tuesday, January 2 at 7.45am. The yoga item which was filmed with the Y14 crew will be on: **January 9, 2024**

Each episode will be re-shown two weeks after its broadcast, and that on the Great Hour at 4.00pm. It will also be possible to watch it on CywTube. <https://www.s4c.cymru/clic/Categories/13> So plenty of opportunity to see them

2) "Bendibwmbwls" Programme with Year 2 children

The new series Bendibwmbwls will start on Cyw in the new year on Tuesday, January 2 at 7.20am. Ysgol Bro Teyrnnon will be on: **Tuesday, January 16, 2024**

Each episode will be re-shown two weeks after its broadcast, and that on the Great Hour at 4.00pm. It will also be possible to watch it on CywTube. <https://www.s4c.cymru/clic/Categories/13> So plenty of opportunity to see them



3) Following auditions with children last year a group had been chosen for the Ne-wff-ion programme.

The programs are shown weekly from Friday 27 October 2023 at 07.45am. In the second programme, on the 3rd of November the item on Newport's Old Ship was to be seen with Heti Andrews presenting. [BBC iPlayer - Ne-wff-ion - Ne-wff-ion: Newyffion](#) Check out the program to see more familiar faces in the future.

4) Year 6 children - 2022-2023

2022-2023 Year 6 children will appear in the Boom episode which includes Ysgol Bro Teyrnnon's 'Battle of Bidders' item on Tuesday February 13th, at 17:45 and Tuesday, March 26th, at 17:45.



The children who took part in the program are now in secondary school but it is only now that we have received the broadcast dates as the series is broadcasting later than expected.

***Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
Merry Christmas and a Happy New Year***

Mrs Lona Jones-Campbell

Pennaeth Gweithredol/Executive Headteacher

